



Asesu cyflwr, dyfnder, oedran a chynnwys carbon mawndir

Amser angenrheidiol ar gyfer y gweithgaredd

Hanner diwrnod hyd at ddiwrnod llawn, yn dibynnu ar faint y grŵp a nifer yr asesiadau a wneir

Lleoliad

Yn yr awyr agored ar ardal o fawndir

Cyd-destun

Mae'r cynllun gweithgaredd hwn yn esbonio sut i gael eich dysgwyr i gynnal ymchwiliad ymarferol syml i asesu cyflwr, dyfnder, oedran a chynnwys carbon ardal o fawndir.

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw mynd ar drywydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd er mwyn gwella llesiant Cymru, a darparu dyfodol gwell i bawb.

Cwricwlwm i Gymru

Dyniaethau

- **Beth sy'n bwysig** - Mae ein byd naturiol yn amywiol a dynamig, ac mae prosesau a gweithredoedd dynol yn dylanwadu arno.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

- **Beth sy'n bwysig** - Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.

Mathemateg a Rhifedd

- **Beth sy'n bwysig** - Mae Geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd yn cynnwys, siâp, gofod a safle ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomenau yn y byd ffisegol.

- **Beth sy'n bwysig** - Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn ymdrin â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth ac maen nhw'n gallu cymryd camau gweithredu ystyriol a moesegol.

Amcanion

Ar ymweliad safle, bydd dysgwyr yn:

- Cwblhau asesiad gweledol o gyflwr y mawndir ar y safle, gan allu nodi a yw mawndir mewn cyflwr da, cymedrol neu wael.
- Ymchwilio i ba mor ddwfn yw'r croniad mawn.
- Amcangyfrif am ba hyd y mae'r mawn wedi bod yn cronni.
- Amcangyfrif faint o garbon sy'n cael ei storio yn y mawndir.
- Asesu a yw'r mawndir ar y safle'n amsugno neu'n allyrru carbon.



Cyn i chi ymweld

Mae mawndiroedd yn gynefinoedd gwarchoddedig. Fe'u nodweddir gan ddŵr agored a phriddoedd dwrlawn ac maen nhw'n amgylcheddau a allai fod yn beryglus. Er mwyn sicrhau eich bod chi a'ch dysgwyr yn cael amser diogel a difyr, cysylltwch â ni cyn i chi **ymweld** â mawndir CNC i gael caniatâd ar gyfer eich gweithgareddau arfaethedig. Mae gennym ffurflen fer a syml i chi ei chwblhau ac yn ein hateb, byddwn yn dweud wrthyfych am unrhyw gyfyngiadau sydd ar waith, a byddwn yn darparu help gyda mapiau ac yn cynnig arweiniad.

Fel arweinydd grŵp, chi sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am ddisgyblaeth, diogelwch a rheolaeth gyffredinol ar eich grŵp. Er mwyn sicrhau amser diogel a difyr i bawb:

- Gwnewch yn siŵr fod eich dysgwyr yn gwisgo esgidiau addas a gofynnwch iddyn nhw gadw at y llwybr pren a'r llwybrau cyffredinol.
- Os byddwch chi'n gweld gwiber, cynghorwch eich dysgwyr i beidio â mynd yn agos ato.
- Bydd da byw i'w weld yn pori ar rai safleoedd. Peidiwch â mynd at y gwartheg na cheisio eu bwydo, os gwelwch yn dda.
- Dilynwch unrhyw arwyddion a chanllawiau ar y safle.

Cefndir a gwybodaeth ychwanegol

Er mwyn sicrhau bod gan eich dysgwyr ddealltwriaeth sylfaenol a'r eirfa berthnasol, rydyn ni'n argymhell eich bod yn edrych ar y gweithgareddau a'r adnoddau canlynol a hynny naill ai yn yr ystafell ddosbarth cyn eich ymweliad neu ar y safle cyn cwblhau'r gweithgaredd hwn:

- **Nodyn gwybodaeth - Mawndir - Sut y gall dalfeydd carbon droi'n allyrwyr carbon**
- **Nodyn gwybodaeth - Canllaw i fawndiroedd**
- **Cynllun gweithgaredd a chardiau adnoddau - Mawn - Gêm 'Ar eich marciau, barod, cronwch'**
- **Cynllun gweithgaredd a chardiau adnoddau - Gêm eirfa datblygu cynaliadwy.**

Cyfarpar ac adnoddau

- Taflen waith - Asesu cyflwr, dyfnder, oedran a chynnwys carbon mawndir
- Ffon archwilio estynadwy neu ffon edefyn - Mae'n syniad da cadarnhau'n fras cyn i chi ymweld beth yw dyfnder tebygol y mawn ar y safle. Dydyfych chi ddim am fentro peidio bod â digon o ffyn mesur na gorfod cario gormod. Os soniwch chi am hyn pan fyddwch yn gwneud cais am ganiatâd, gallwn roi gwybod ichi.
- Tapiau Mesur
- Llyfrau neu apiau adnabod planhigion mawndir
- Cwadratau 1m²
- Clipfyrddau
- Pensiliau/beiros
- Cadachau gwlyb neu hylif diheintio dwylo ar gyfer golchi dwylo.

Beth i'w wneud

Darparu cefndir

Esboniwch wrth eich dysgwyr fod mawndiroedd yn fannau naturiol ar gyfer storio carbon a'u bod, ar lefel fyd-eang, yn storio tua dwbl y carbon gaiff ei storio yn holl goedwigoedd y byd, ac mae hyn yn eu gwneud yn offeryn hanfodol wrth helpu i reoleiddio'r hinsawdd. Mae storio stociau enfawr o garbon yn y pridd yn ei atal rhag cael ei ollwng i'r aer fel carbon deuocsid (CO₂). Fodd bynnag, mae ein technegau rheoli hanesyddol, ac weithiau ein technegau presennol, yn bygwth y storfa garbon hanfodol hon. Mae'r draenio, llosgi, tyfu a chloddio wedi gadael mawndiroedd mewn ystod eang o gyflyrau sy'n amrywio o fod yn tyfu'n weithredol i fod yn erydu'n weithredol.



Mae mawndiroedd iach sydd mewn cyflwr da yn creu llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr ac maen nhw'n amsugno carbon ar gyfradd uwch na mawndiroedd sydd mewn cyflwr gwael. Gall mawndiroedd sydd wedi'u difrodi allyrru CO₂ gan gyfrannu at newid yn yr hinsawdd.

Esboniwch wrth eich dysgwyr y byddan nhw'n cwblhau sawl tasg a hynny mewn o leiaf bum lleoliad sampl. Fel Arweinydd Grŵp, gallwch chi ddewis gosod pob un o'r tasgau hyn neu ddim ond rhai ohonynt.

Er mwyn lleihau'r effaith ar y mawndir, dylid cwblhau'r gweithgareddau hyn mewn grwpiau gan ddefnyddio ardaloedd samplu sy'n hawdd eu cyrraedd o'r prif lwybrau troed ac sy'n nodweddiadol o'r ardal o'ch cwmpas. Pan fyddan nhw'n derbyn manylion eich ymweliad arfaethedig, bydd staff safle CNC yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad ar y lleoliadau gorau i gyflawni'r tasgau. Os ydych yn ymweld â safle nad yw o dan ofalaeth CNC, gwnewch yn siŵr eich bod wedi cysylltu â pherchennog y safle ac wedi ceisio caniatâd cyn eich ymweliad.

Cynghorwch eich dysgwyr i ddewis lleoliad archwilio sy'n nodweddiadol o'r ardal honno ac sy'n hawdd ei chyrraedd. Cofiwch fod wyneb y mawn ger ffosydd yn aml yn is oherwydd erydiad a dirywiad, ond bydd twmpathau, ar y llaw arall, yn codi lefel wyneb y ddaear uwchlaw lefel gwirioneddol y mawn.

Lleoliad a chyflwr

Tasg 1 - Lleoliad

Gofynnwch i'ch dysgwyr ddarganfod a nodi lleoliad pob un o'u pwyntiau samplu. Bydd hyn yn caniatáu iddyn nhw blotio'r data a gesglir ar fap yn ddiweddarach os bydd angen. Dylai dysgwyr nodi cyfeirnod grid ar gyfer pob lleoliad.

Tasg 2a a 2b - Arsylwadau safle


Esboniwch wrth eich dysgwyr bod modd iddyn nhw asesu cyflwr y mawndir yn eu hardal samplu trwy adnabod y planhigion sydd ar yr wyneb fel gorchudd migwyn, a thrwy asesu cyflwr y tir, er enghraifft, a oes unrhyw dystiolaeth weladwy o erydiad wedi'i nodweddu gan ardaloedd o fawn noeth.

Mae dosbarthu cyflwr gwahanol ardaloedd o fawndir yn caniatáu i reolwyr tir nodi'r dull rheoli mwyaf priodol ar gyfer ardal benodol. Er enghraifft, ardaloedd sy'n tyfu'n weithredol i'w diogelu ac ardaloedd sydd wedi dirywio i gael eu hargáu er mwyn eu hannog i fynd yn wlyb eto. Trafodwch y canllaw 'Asesiad gweledol o gyflwr mawndir' gyda'ch dysgwyr a chan ddefnyddio cwadrat, cwblhewch asesiad enghreifftiol. Esboniwch ei bod yn debygol y bydd ardaloedd sydd mewn cyflwr da ac ardaloedd eraill nad ydynt mewn cyflwr cystal ac felly mae'n bwysig arolygu sawl ardal wahanol er mwyn asesu cyflwr cyffredinol y mawndir.

Tasg 3 - Asesu'r safle

Gofynnwch i'ch dysgwyr wneud asesiad gan ddefnyddio'r holl wybodaeth a gasglwyd ganddyn nhw. A yw'r mawn ym mhob un o'u hardaloedd samplu'n tyfu'n weithredol? A yw wedi dirywio? A yw'n erydu?

Cynrychioliad o golofn m³



Ffigur 1



Tasg 4 - Dyfnder y mawn

Dywedwch wrth eich dysgwyr eu bod nhw fel grŵp yn mynd i ddarganfod pa mor ddwfn yw'r croniad mawn. Ar gyfartaledd, 1mm o fawn y flwyddyn yw cyfradd twf mawn iach, felly gall 1 metr o fawn gymryd hyd at fil o flynyddoedd i ffurfio. Esboniwch mai anaml y mae croniadau mawn yn unffurf, felly, er mwyn cael mesuriad cyfartalog ar gyfer y safle, rhaid mesur dyfnder y mawn ym mhob lleoliad samplu.

Tasg 4a - Amcangyfrif

Cyn iddyn nhw ddechrau'r dasg hon, gofynnwch i'ch dysgwyr ddyfalu am faint o amser yn eu tyb nhw mae mawn wedi bod yn cronni ar y safle a nodwch eu hamcangyfrifon ar y Ffurflen Asesu Mawndir.

Tasg 4b - Gwirioneddol

Dangoswch y ffon fesur estynadwy i'ch dysgwyr ac eglurwch y gellir mesur dyfnder mawn trwy wthio'r ffyn cul hyn i'r mawn hyd nes nad oes modd eu gwthio'n ddyfnach. Cyfeiriwch eich dysgwyr at Ffigur 1.

Yn dibynnu ar sut oedd yr ardal cyn iddi ddechrau mewnlenni â mawn, bydd dyddodion mawn yn gorwedd ar is-haen o glai, graean neu silt. Pan fydd y ffon fesur yn cyrraedd y swbstrad, ni fydd modd ei gwthio i lawr ymhellach.

Arwydd arall eich bod wedi cyrraedd y swbstrad yw y bydd yn mynd yn fwyfwy anodd gwthio'r ffon i lawr ymhellach. Mae'r dyfnder y mae'r ffon yn suddo iddo yn dynodi dyfnder y mawn. Os yw dyfnder y mawn yn ymddangos yn annisgwyl o fas mae'n bosibl bod eich ffon fesur wedi taro gwreiddyn coeden neu rwystr sydd wedi'i gladdu gan y mawn. Symudwch eich ffon fesur i ffwrdd o'r ardal a rhowch gynnig arall arni.

Pan na ellir gwthio'r ffon fesur yn ddyfnach, dylid ei thynnu allan yn ofalus. Gofynnwch i'ch dysgwyr archwilio pen blaen y ffon fesur gyntaf gafodd ei suddo am dystiolaeth o glai neu dywod - bydd hyn yn cadarnhau bod y rhoden wedi cyrraedd y swbstrad isod. Cyfarwyddwch eich dysgwyr i osod allan a mesur hyd cyfun y ffyn - bydd hyn yn dangos dyfnder y mawn.

Dyma syniad! Gofynnwch i'ch dysgwyr fesur hyd un ffon fesur unigol cyn dechrau'r gweithgaredd hwn. Bydd hyn yn cyflymu'r broses fesur ac wrth i'r ffyn gael eu suddo bydd yn rhoi arwydd uniongyrchol i'ch dysgwyr o ddyfnder y mawn.

Gofynnwch i'ch dysgwyr gofnodi eu canlyniadau ar gyfer pob lleoliad samplu yn y tabl sydd ar eu taflen waith.

Tasg 4c - Dyfnder cyfartalog y safle

Unwaith y bydd eich dysgwyr wedi mesur dyfnder y mawn mewn o leiaf bum lleoliad gwahanol, mae'n bosibl cyfrifo dyfnder cyfartalog y mawn sydd yn y safle.

$$\frac{\text{Dyfnder y mawn (m) ym mhob lleoliad (LI1 + LI2 + LI3 + LI4 + LI5)}}{\text{Nifer y lleoliadau a samplwyd}} = \text{Dyfnder cyfartalog y mawn (m) ar gyfer y safle.}$$

Am ba hyd y mae mawn wedi bod yn cronni?

Tasg 5a - Amser cronni ym mhob lleoliad

Unwaith y bydd eich dysgwyr wedi mesur dyfnder y mawn ym mhob lleoliad, mae'n bosibl gweithio allan faint o amser, mewn blynyddoedd, y mae mawn wedi bod yn cronni drwy ddefnyddio'r gyfradd gyfartalog ar gyfer twf mawn, sef 1mm y flwyddyn.

$$\frac{\text{Dyfnder y mawn (m) yn y lleoliad samplu}}{\text{Cyfradd twf 0.001m/blwyddyn}} = \text{Nifer y blynyddoedd mae mawn wedi bod yn cronni}$$

Er enghraifft: Mae dyfnder y mawn wedi'i gofnodi'n 6.23 metr yn y lleoliad enghreifftiol yn y tabl.

$$\frac{6.23 \text{ metr}}{0.001\text{m}} = 6230 \text{ mlynedd o groniad mawn.}$$



Tasg 5b – Amser cronni cyfartalog y safle

Unwaith y bydd eich dysgwyr wedi cyfrifo faint o amser y mae mawn wedi bod yn cronni mewn nifer o lleoliadau, mae'n bosibl cael syniad o ba mor hir y mae mawn wedi bod yn cronni ar draws y safle.

$$\frac{\text{Nifer y blynyddoedd ym mhob lleoliad (LI1 + LI2 + ac ati)}}{\text{Nifer y lleoliadau a samplwyd}} = \text{Nifer cyfartalog y blynyddoedd mae mawn wedi bod yn cronni ar draws y safle.}$$

Adolygwch ddyfaliadau cynharach eich dysgwyr – pa mor agos oedden nhw at y mesuriad cywirach o ba mor hir y mae mawn wedi bod yn cronni ar y safle?

Tasg 5c – Pryd ddechreuodd y mawn Gronni?

Gan ddefnyddio eu cyfrifiad o hyd cyfartalog yr amser mae mawn wedi bod yn cronni ar y safle, gofynnwch i'ch disgyblion weithio yn ôl. Ym mha flwyddyn y dechreuodd y mawn Gronni ar y safle?

Swm y carbon sydd wedi'i storio yn y mawn

Tasg 6a – Carbon sydd wedi'i storio ym mhob lleoliad

Unwaith y bydd ganddyn nhw'r wybodaeth am ddyfnder cronniad mawn mewn lleoliad, esboniwch wrth eich dysgwyr y bydd modd iddyn nhw gael syniad o faint o garbon sy'n cael ei storio mewn cilogramau, o fewn colofn metr ciwbig yn y lleoliad hwnnw (gweler **Ffigur 1**).

Gan ddefnyddio ein graff 'Gallu mawn i storio carbon', mae'r dysgwyr yn dod o hyd i ddyfnder y mawn ar gyfer pob lleoliad samplu ar hyd yr echel 'x'. Trwy dynnu llinell syth i fyny i'r llinell ar y graff a darllen ar draws i'r echelin 'y', gallan nhw nodi cyfanswm y carbon sy'n cael ei storio yn y lleoliad samplu mewn cilogramau.


Tasg 6b – Cyfartaledd y carbon sy'n cael ei storio ar draws y lleoliadau samplu

Unwaith y bydd eich dysgwyr wedi cyfrifo'r carbon sy'n cael ei storio ym mhob lleoliad samplu, dylen nhw gyfrifo'r carbon cyfartalog sy'n cael ei storio ar draws y lleoliadau a samplwyd.

$$\frac{\text{Carbon mewn cilogramau ym mhob lleoliad (LI1 + LI2 + ac ati)}}{\text{Nifer y lleoliadau a samplwyd}} = \text{Swm cyfartalog y carbon sy'n cael ei storio ar draws y lleoliadau samplu mewn cilogramau}$$



Gallu mawn i storio carbon



Noder: Mae faint o garbon sy'n cael ei storio mewn mawn yn gysylltiedig â chyfansoddiad mawn, sydd â llawer o newidynnau fel ei swmp ddwysedd (faint o ddeunydd mawn sych sydd fesul cyfaint uned). Er mwyn llunio'r graff hwn, rydym wedi seilio'r cyfrifiadau ar fformiwla wyddonol i 10m ac yna o 10m ac yn ddyfnach defnyddiwyd ffigur storio carbon cyfartalog. Felly, nid yw'r graff hwn i fod i gael ei ddefnyddio fel offeryn gwyddonol ar gyfer dyfnderoedd mawr o fawn sy'n fwy na 10m, ond yn fwy fel offeryn addysgol i gysylltu ôl troed carbon â chyfaint o fawn.

Am ragor o wybodaeth gweler: **Nodyn gwybodaeth - Mawndir: Sut y gall dalfeydd carbon droi'n allyrwyr carbon.**



Graff cynnwys carbon

Yn seiliedig ar yr hafaliadau uchod ac oherwydd bod swmp ddwysedd yn amrywio gyda dyfnder, rydyn ni wedi cyfrifo'r carbon sy'n cael ei storio mewn mawn bob 5cm i ddyfnder o 10m.

Gan ddefnyddio'r canlyniadau hyn, cyfrifwyd cynnwys carbon cyfartalog ar gyfer pob m³ o fawn rhwng 0 a 10m. Ar gyfer dyfnderoedd sy'n fwy na 10m rydyn ni wedi defnyddio'r carbon cyfartalog sy'n cael ei storio fesul metr rhwng yr ystod 0-10m (45.96401 KG y m³).

Yna caiff y graff ei lunio o swm cronus pob metr o garbon sy'n cael ei storio e.e. ar 1m mae'n 96.21KG, ar ddau fetr mae'n 59.27KG felly'r ffigur cronus ar gyfer y 2m³ hynny yw 155.48KG ac ati.

Oherwydd y cyfartaleddau a ddefnyddir a'r newidynnau yng nghyfansoddiad mawn a chyfradd y twf, nid yw'r graff hwn i fod i gael ei ddefnyddio fel offeryn gwyddonol ar gyfer dyfnderoedd mawr o fawn sy'n fwy na 10m, ond yn fwy fel offeryn addysgol i gysylltu ôl troed carbon â chyfaint o fawn.

I gael ffigurau mwy cywir efallai y bydd modd i chi gael ffigurau swmp ddwysedd eich mawndir lleol neu, gyda chaniatâd, gallech gynnal astudiaeth o'r mawndir er mwyn cynhyrchu eich canlyniadau eich hun.

Am ragor o wybodaeth gweler: **Nodyn gwybodaeth - Mawndir: Sut y gall dalfeydd carbon droi'n allyrwyr carbon.**

Gwrthbwysu eich ôl troed carbon

Tasg 7 - Ôl-troed carbon

Os yw eich dysgwyr wedi cyfrifo eu hól troed carbon blynyddol cyn eich ymweliad gan ddefnyddio ein **Taflen Waith Cyfrifiannell Carbon Mawndiroedd**, gofynnwch iddyn nhw gyfrifo faint o fawn ar y safle fyddai ei hangen i wrthbwysu eu hól troed carbon.


Os nad yw dyfnder mawn cyfartalog (yn seiliedig ar arwynebedd arwyneb o 1m²) y safle i gyd (Tasg 4c) yn ddigon dwfn i wrthbwysu eu hól troed carbon, gofynnwch i'ch dysgwr ddefnyddio'r tabl ar waelod y dudalen nesaf, i gyfrifo sawl m² o dir ar y safle fyddai'n ofynnol i amsugno eu hallyriadau carbon blynyddol.

Er enghraifft, os yw eu hól troed carbon blynyddol yn **1432.4kg** ond mai dim ond **4.8m** yw dyfnder y mawndir, bydd angen arwynebedd arwyneb o **7m²** o fawn **4.8m** o ddyfnder i wrthbwysu eu hól troed carbon blynyddol; gellid disgrifio a dychmygu hyn fel 35m³.

Gall marcio'r ardaloedd hyn â llinyn (fesul grŵp dysgwyr) helpu i ddychmygu'r swm sy'n ofynnol.

Hyd yn oed os yw'r mawn ar y safle'n ddigonol i wrthbwysu eu hól troed carbon blynyddol ar gyfer yr ymarfer hwn, gofynnwch i'ch dysgwyr ddychmygu sawl m² a faint o ddyfnder o fawn fyddai ei angen i amsugno eu hallyriadau carbon dros eu hoes.

Mae angen i bawb ystyried eu hallyriadau carbon fel rhan o broblem fyd-eang gyffredinol a gwneud pob ymdrech i'w lleihau. Gall dysgwyr ddefnyddio'r blwch ar ddiwedd y daflen waith i gofnodi eu hymrwymiad.



Ffigur 2



Cwestiynau allweddol a awgrymir

- Gall dyfnder mawn ar safle amrywio – gofynnwch i'ch dysgwyr a yw eu canlyniadau'n cyd-fynd â'r datganiad hwn.
- Pa ffactorau all beri i ddyfnder mawn amrywio ar safle?
- Beth yw manteision ac anfanteision ymchwilio i ddyfnder mawn gyda ffon fesur? A yw'n ddull dibynadwy o gael data dyfnder mawn? Pa ddulliau eraill y gellid eu defnyddio?
Dewisol os yw Tasg 6 wedi'i chwblhau:
- A yw'r arwynebedd mawn o faint digonol i wrthbwysu ôl troed carbon blynyddol y dosbarth cyfan? Gellir mesur arwynebedd tir yn hawdd gan ddefnyddio'r offer sydd ar gael ar Fap Data Cymru Llywodraeth Cymru.

Addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

Llai o gefnogaeth

- Dysgwyr i weithio trwy'r tasgau'n annibynnol.
- Gall dysgwyr gwblhau'r daflen waith heb gyfrifianellau.

Mwy o gefnogaeth

- Cwblhau'r daflen waith fel grŵp
- Rhannwch y daflen waith yn gamau unigol a chadarnhau'r canlyniadau a'r ddealltwriaeth cyn symud ymlaen i'r cam nesaf.

Gweithgaredd dilynol/estyniad

- Mesur a chymharu faint o garbon sy'n cael ei storio mewn coed o'i gymharu â mawn. Pa un yw'r storfa garbon naturiol fwyaf effeithlon? Edrychwch ar ein **Gweithgaredd Ôl-troed Carbon Coed a Choetiroedd**.
- Cynllun gweithgaredd – Mawndir sy'n Crebachu.

Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk os gwelwch yn dda, neu ewch i <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000